# Cynllun Bro Ceinewydd

Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

DRAFT



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Bro Ceinewydd
# Cynnwys


Prosiectau Allweddol

1. Cyflwyniad

    1.1 Trosolwg
    1.2 Ynghylch Ceinweydd
    1.3 Data Allweddol ar gyfer Ceinewydd
    1.4 Ôl-bandemig
    1.5 Teithio a Chysylltedd
    1.6 Ystadegau

2. Cynllun Bro

    2.1 Cyd-destun

        2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill
        2.1.2 Cyswllt â Pholisi
        2.1.3 Themâu'r Cynllun Bro
        2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant
        2.1.5 Diben a Budd y Cynllun

    2.2 Dull Gweithredu

        2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro
        2.2.2 Gweithredu Cymunedol
        2.2.3 Adborth y Gymuned

    2.3 Ymatebion

3. Gweledigaeth

    3.1 Gweledigaeth a Strategaeth
    3.2 Blaenoriaethau

4. Themâu ac Amcanion

    4.1 Llesiant

        4.1.1 Trosolwg
        4.1.2 Amcanion
        4.1.3 Iechyd a Llesiant
        4.1.4 Hygyrchedd
        4.1.5 Teithio Llesol
        4.1.6 Hamdden ac Adloniant
        4.1.7 Trafnidiaeth
        4.1.8 Camau Gweithredu
        4.1.9 Polisïau a Chysylltiadau Llesiant

    4.2 Creu Lleoedd

        4.2.1 Trosolwg
        4.2.2 Amcanion
        4.2.3 Darpariaethau Cymunedol
        4.2.4 Datblygiadau yn y Dyfodol
        4.2.5 Rheoli Traffig
        4.2.6 Parcio
        4.2.7 Gwelliannau i'r Stryd Fawr
        4.2.8 Arwyddion
        4.2.9 Camau Gweithredu
        4.2.10 Polisïau a Chysylltiadau Creu Lleoedd

    4.3 Treftadaeth a Diwylliant

        4.3.1 Trosolwg
        4.3.2 Amcanion
        4.3.3 Cyd-destun Hanesyddol
        4.3.4 Diwylliant
        4.3.5 Treftadaeth Bensaernïol
        4.3.6 Camau Gweithredu
        4.3.7 Polisïau a Chysylltiadau Treftadaeth a Diwylliant

    4.4 Yr Economi

        4.4.1 Trosolwg
        4.4.2 Amcanion
        4.4.3 Busnes Lleol
        4.4.4 Tourism
        4.4.5 Llety Ymwelwyr
        4.4.6 Hyrwyddo
        4.4.7 Camau Gweithredu
        4.4.8 Polisïau a Chysylltiadau'r Economi

    4.5 Yr Amgylchedd

        4.5.1 Trosolwg
        4.5.2 Amcanion
        4.5.3 Adnoddau Naturiol
        4.5.4 Cynaliadwyedd
        4.5.5 Ymwybyddiaeth Amgylcheddol
        4.5.6 Camau Gweithredu
        4.5.7 Polisïau a Chysylltiadau'r Amgylchedd

    4.6 Syniadau ar gyfer Prosiectau


DRAFT

# Cynllun Bro Ceinewydd
# 1. Cyflwyniad

DRAFT

### 1.1 Trosolwg

Mae Cynlluniau Bro yn galluogi cymunedau i ymgysylltu'n greadigol â'r broses gynllunio i lunio strategaeth Creu Lleoedd dan arweiniad y gymuned sy'n darparu manylion ar gyfer yr ardal leol, ac sy'n adlewyrchu ei hynodrwydd ac yn mynd i'r afael â materion penodol i'r gymuned honno.

Mae Cynllun Bro Ceinewydd wedi cael ei ddatblygu gan y Cyngor Tref ar y cyd â'r gymuned leol a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'n cynnig syniadau rhagorol ar gyfer newid cadarnhaol yn Ceinewydd a'r wardiau cyfagos.

Mae Cynllun Bro Ceinewydd yn ei gamau cynnar. Mae'r drafft hwn yn amlinellu'r themâu a'r syniadau sy'n dod i'r amlwg ac a drafodwyd mewn gweithdai a chyfarfodydd ers mis Medi 2024. Mae gwaith ymgynghori, ymgysylltu â'r gymuned, datblygu ac adolygu pellach yn angenrheidiol. Mae'r cynllun hwn yn ddogfen fyw sydd i'w hadolygu gan y Cyngor Tref ar gerrig milltir allweddol, ac sy'n gwasanaethu fel drafft cychwynnol a man cychwyn.

### 1.2 Ynghylch Ceinewydd

Ceinewydd: tref glan môr yng Ngheredigion, Cymru yw Ceinewydd, a chanddi boblogaeth breswyl o tua 1,200 o bobl. Mae wedi'i lleoli ym Mae Ceredigion, ac yn cynnwys harbwr a thraethau tywodlyd mawr. Mae'n parhau i fod yn gyrchfan glan môr boblogaidd ac yn dref bysgota draddodiadol.

Hyd at ddechrau'r 19eg ganrif, ychydig o fythynnod to gwellt wedi'u hamgylchynu â thir amaethyddol, yr harbwr naturiol a ddarparai angorfa ddiogel i gychod pysgota ac ychydig o longau masnachu bach a geid yng Ngheinewydd. Pasiwyd Deddf Harbwr Ceinewydd yn 1835 ac adeiladwyd pier carreg ar gost o £7,000. Cynyddodd y gweithgarwch masnachu a chodwyd tai newydd wrth i fudwyr economaidd gyrraedd. Dechreuwyd adeiladu llongau yno a chynyddodd maint y dref wrth i dai teras gael eu codi i fyny llethrau'r bae cysgodol.

Erbyn yr 1840au, roedd mwy na thri chant o weithwyr yn cael eu cyflogi i adeiladu llongau mewn tair canolfan, sef Ceinewydd ei hun, Traeth Gwyn, bae ychydig i'r gogledd, a Chei-bach, traeth cerigos ymhellach i'r gogledd o dan glogwyn coediog. Yma, câi cychod pysgota (smacks) a sgwneri eu hadeiladu i'w hwylio ar hyd yr arfordir, ynghyd â llongau mwy i hwylio i America ac Awstralia. Bryd hynny, yn ogystal â seiri llongau, roedd yng Ngheinewydd hanner dwsin o siopau gof, tri gwneuthurwr hwyliau, tair rhafflan (rope walk) a ffowndri. Roedd mwyafrif dynion y dref yn forwyr neu'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau a oedd yn gysylltiedig â'r môr.

Erbyn 1870, roedd adeiladu llongau wedi dod i ben yng Ngheinewydd ond roedd mwyafrif y dynion a oedd yn byw yno yn dal i fynd i'r môr. Roedd yna ysgolion mordwyo yn y dref, a deuai capteiniaid nifer o'r rigwyr sgwâr olaf i hwylio'r byd o Geinewydd. Bydd ymwelwyr craff yn sylwi ar yr hen warysau, y mae iddynt bellach ddefnydd newydd, yr hydoedd o gadwyni, y modrwyau metel a'r capstanau, ac mae rhestr o dollau ar gyfer allforio a mewnforio i'w gweld o hyd y tu allan i swyddfa'r harbwrfeistr.

Ymhlith yr atyniadau allweddol i ymwelwyr y mae'r harbwr prydferth a'r traeth tywodlyd eang, yn ogystal â'r gallu i weld y boblogaeth o ddolffiniaid trwyn potel sy'n byw ym Mae Ceredigion. Mae gan y dref ganolfan dreftadaeth a chanolfan bywyd gwyllt morol, yn ogystal â'r casgliad arferol o siopau a bwytai. Ar gyrion y dref ceir llawer o barciau gwyliau a meysydd carafannau mawr.

Mae Regata Bae Ceredigion, a gynhelir ym mis Awst fel arfer, wedi cael ei chynnal ers o leiaf yr 1870au. Erbyn hyn, mae'r digwyddiadau'n cynnwys chwaraeon gyda'r glannau (nofio, rhwyfo, ac ati), a rasio dingis a chriwserau.

Yn ogystal â'r diwydiant lletygarwch, mae yna gyflogaeth sylweddol o hyd ym myd pysgota môr a phrosesu pysgod.

### 1.3 Data Allweddol ar gyfer Ceinewydd

Lleolir Grŵp Aneddiadau Ceinewydd 12.1 km (7.5 milltir) i'r de o Aberaeron. Tra bo'r grŵp yn dibynnu ar Aberaeron ac Aberteifi am lawer o'u hanghenion, mae Ceinewydd yn gwasanaethu fel Canolfan Gwasanaethau leol ar gyfer gofynion dyddiol.

Mae CDLl 1 yn nodi y gall y twf arfaethedig ar gyfer Ceinewydd fynd rhagddo heb niweidio'r gymuned na'r iaith Gymraeg yn sylweddol, felly ni fydd datblygu fesul cam yn cael ei gymhwyso yn yr ardal hon.

### 1.4 Ôl-bandemig


Bu i COVID-19 amharu ar fywyd bob dydd a chreu ansicrwydd, ond rhoddodd hefyd gyfle i ailfeddwl am ein mannau byw, gweithio a hamdden. Rhaid i ni ailadeiladu cymdeithas wyrddach, lanach sy'n canolbwyntio ar ddatgarboneiddio a chyfiawnder cymdeithasol, gan sicrhau mannau byw hygyrch sy'n parchu'r amgylchedd. Mae hyn yn berthnasol i Geinewydd a Chymru gyfan.

Roedd y cyfyngiadau symud wedi tynnu sylw at arwahanrwydd cymunedol, gan arwain at systemau cymorth sy'n parhau i gynorthwyo ardaloedd sy'n gwella'n arafach. Gwelodd y cyfnod hefyd welliannau sylweddol mewn sgiliau TG, yn enwedig ym myd addysg, a chyflwynwyd gweithio o bell yn ogystal. Addasodd masnachwyr lleol gyda chynigion ehangach a rhwydweithiau dosbarthu newydd. Mae gweithio o bell wedi gwneud cyflogaeth mewn dinasoedd yn hygyrch yn lleol, ac mae opsiynau ar gyfer desgiau poeth yng nghanol trefi yn darparu Wi-Fi da a chyfleoedd rhwydweithio.

Fel tref wyliau, mae staff lletygarwch Ceinewydd wedi parhau i weithio ar y safle yn bennaf, ac felly nid yw'r amgylchedd gwaith sylfaenol wedi newid fawr ddim. Fodd bynnag, mae costau byw uwch a COVID-19 wedi newid ymddygiad twristiaid yn sylweddol. Bellach mae yna lai o bobl yn y dref yn y bore bach, a phrin yw nifer y twristiaid cyn 11am, ac mae busnes gyda'r nos wedi dirywio gan fod yr ymwelwyr yn gadael yn gynt nag o'r blaen. Mae'r newid hwn wedi arwain at lai o ymwelwyr yn hwyr yn y nos, elfen sydd wedi effeithio ar y fasnach gyda'r nos a'r awyrgylch cyffredinol o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Allwedd:

- Cymuned Ceinewydd
- Wardiau cymunedol cyfagos yng Ngheredigion
- Priffordd





Harwbwr Ceinewydd

### 1.5 Teithio a Chysylltedd


Mae gwasanaethau trafnidiaeth cymunedol pwrpasol mewn rhai ardaloedd o Geredigion yn tyfu ac yn datblygu mewn ymateb i alw gan y cyhoedd. Fodd bynnag, mae rhai cymunedau'n parhau i fod yn ynysig, heb unrhyw wasanaeth bws cyhoeddus yn bodoli. Mae dibyniaeth ar geir preifat yn anochel yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn rhoi pwysau cynyddol ar leoedd parcio yng nghanol y dref, sy'n cael effaith negyddol ar yr ardal ac yn achosi i'r amgylchedd ddioddef.

Darperir y gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus gan wasanaethau cenedlaethol. TrawsCymru yw'r gwasanaeth bws lleol sy'n gweithredu yn y sir, ac mae'n cynnig Cardiau Teithio Rhatach Cymru ar bob gwasanaeth bws yng Nghymru. Darperir y gwasanaethau trafnidiaeth cyhoeddus gan wasanaethau cenedlaethol. Mae'r gwasanaeth bws cyfredol yn teithio o Aberystwyth i Hwlffordd trwy Geinewydd ac Aberteifi.

### 1.6 Ystadegau

Yn aml, mae nifer o ystadegau, sy'n cynnwys data cyfrifiadau, yn cael eu cyflwyno ar raddfa ddaearyddol y cyfeirir ati fel Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAau). Mae tair LSOA yn cwmpasu'r dref. O'u cyfuno, mae'r LSOAau hyn yn cyfateb i ffin y Cyngor Tref. Mae'r data ar y dudalen ganlynol yn seiliedig yn bennaf ar yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAau) gyferbyn.


Yn ôl ystadegau'r Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA), mae tua 1,700 o breswylwyr yn byw yng Ngheinewydd, ac mae 42.8% ohonynt yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r grwpiau oedran mwyaf yn y boblogaeth yn amrywio o 50-79 oed. Yn ôl y canlyniadau, mae 78% o'r preswylwyr yn berchen ar eu cartrefi, mae 13% yn rhentu eu cartrefi, ac mae 9% yn unigolion sy'n talu rhent cymdeithasol. Mae'r ystadegau gweithgarwch economaidd yn dangos bod 2% o drigolion Ceinewydd yn ddi-waith, fod 46% yn gyflogedig, a bod 52% yn anweithgar.




DRAFT


## Poblogaeth

Cymru | Ceredigion | Ceinewydd





## % Poblogaeth a Ddynododd Cymraeg yn Unig


Cymru | Ceredigion | Ceinewydd





## % Grwpiau Oedran Poblogaeth yn Ceinewydd





## Deiliadaeth Aelwydydd yn Ceinewydd





## Y Gymraeg yn Ceinewydd




## % Dadansoddiad o'r Galwedigaethau yn Ceinewydd





## Ceir/Faniau fesul Aelwyd yn Ceinewydd





0: 13.1%
1: 45%
2: 30.7%
3+: 11.2%

## % Gweithgarwch Economaidd yn Ceinewydd




## Ethnigrwydd yn Ceinewydd




Ffynhonnell y data: NOMIS, Cymru, 2021

DRAFT




Sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer drafftio
Cynllun Bro Ceinewydd, Medi 2024

DRAFT

DRAFT

### 2.1 Cyd-destun

Mae Cynlluniau Bro yn ategu cynlluniau datblygu statudol sydd mewn bod ac yn mynd i'r afael â materion ar raddfa gymunedol, megis cynllunio cyfleusterau cymunedol a mannau agored. Maent yn gweithredu fel mecanwaith i gymunedau ymgysylltu mewn modd creadigol â'r broses gynllunio.

#### 2.1.1 Cysylltiadau â Chynlluniau Eraill


Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynllun ar gyfer eu hardal a elwir yn Gynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mae hwn yn nodi amcanion yr awdurdod mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn ei ardal, ynghyd â'i bolisïau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny.

Ym mis Ebrill 2013, mabwysiadodd Cyngor Sir Ceredigion Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion yn ffurfiol. O ganlyniad, rhaid i ddatblygiad arfaethedig gael ei ystyried yn unol â'r polisïau a geir yn y cynllun hwn. Yn dilyn hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Cynlluniau Bro, sy'n ychwanegu manylion at y broses o gynllunio datblygu statudol, ac yn ymhelaethu ymhellach ar y cynnwys. Er bod Cynlluniau Bro yn ddogfennau anstatudol a all ddarparu cymorth i gyflawni'r gwaith, cânt eu paratoi i'r diben o ddod yn Ganllawiau Cynllunio Atodol (SPG) yn y dyfodol.

Mae'r canllawiau hyn a arweinir gan y gymuned yn helpu i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol. Caiff Cynlluniau Bro eu llywio gan bolisi, ond maent hefyd yn cynnig cyfle i lywio a llunio strategaethau lleol a chenedlaethol tymor hwy.

Mae i'r cynllun hwn gyswllt â dogfennau strategol y Cyngor Sir, gan gynnwys:

- Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion.
- Ceredigion i Bawb (Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol).
- Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion.
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT).
- Cynllun Llesiant Ceredigion.




Cyd-destun y Cynllun Bro o fewn polisi, deddfwriaeth a chanllawiau cynllunio

DRAFT

**2.1.2 Cyswllt â Pholisi**

Mae pob prosiect a amlinellir yn y Cynllun Bro drafft yn bodloni'r ddyletswydd a bennir dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef cyflawni'r 'Egwyddor Datblygu Cynaliadwy' trwy'r pum ffordd o weithio: Cydweithio, Integreiddio, Cynnwys, Hirdymor ac Atal.

Mae pum egwyddor allweddol 'Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11' wedi cael eu hystyried yn rhan o'r broses ar gyfer llunio prosiectau Cynllun Bro. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tyfu ein heconomi mewn modd cynaliadwy.
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.
- Hwyluso amgylcheddau hygyrch ac iach.
- Creu a chynnal cymunedau.
- Hyrwyddo gwarchodaeth amgylcheddol a chyfyngu ar effaith amgylcheddol.

**2.1.3 Themâu Cynllun Bro**

Mae yna bum thema Cynllun Bro graidd sy'n darparu strwythur ac yn ei gwneud yn bosibl i brosiectau a chamau gweithredu fod yn gyson â blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Tra bo cynnwys y Cynllun Bro hwn a'r set o is-themâu yn unigryw i Ceinewydd, mae'r categorïau'n gyffredin ledled pob tref yng Ngheredigion. Mae pob un o'r themâu'n cael eu llywio gan ddeddfwriaeth, polisi, a dyheadau cymunedol. Mae'r disgrifyddion cefndir canlynol yn darparu fframwaith ar gyfer strwythuro'r Cynllun Bro:

Llesiant:

Meddwl am effaith hirdymor penderfyniadau, a darparu cymorth i'r gymuned leol atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd. Nod y camau gweithredu hyn yw lleihau'r gwahaniaethau o fewn cymunedau a chreu amodau sy'n galluogi pobl i fyw a gweithio mewn lleoedd diogel, bywiog. Mae'r thema'n cyd-fynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Creu Lleoedd:

Mabwysiadu agwedd gyfannol at gynllunio a dylunio gofodau. Mae creu lleoedd yn tynnu ar botensial ardal i greu datblygiad o ansawdd uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl. Dylai hyn arwain at ddatblygu gofodau nodedig a bywiog sy'n cryfhau'r berthynas rhwng pobl a lleoedd. Mae'r thema'n ymateb i Polisi Cynllunio Cymru: Rhifyn 11 ac mae'n ymgorffori gwerthoedd Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Treftadaeth a Diwylliant:

Diogelu'r dreftadaeth ranbarthol unigryw a'r asedau diwylliannol cyfoethog sy'n bresennol yn y dref. Nod y camau hyn yw datblygu'r cymeriad hanesyddol sy'n denu pobl i ymweld â'r ardal ac i fyw ynddi. Mae'r thema'n cymhwyso egwyddorion cadwraeth ac yn helpu i feithrin dealltwriaeth o werth treftadaeth llawer o nodweddion hanesyddol lleol – rhan hanfodol o hunaniaeth ddiwylliannol Ceredigion. Mae'r thema'n cyd-fynd â'r Cynllun Gwerthuso a Rheoli Ardal Gadwraeth.

Yr Economi:

Datblygu rhaglen buddsoddiad mewn adfywio dargededig sy'n cynnal economi ffyniannus gynaliadwy. Mae hyn yn mynd i'r afael â heriau allweddol i gyflawni gweledigaeth o economi sy'n darparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer pawb sy'n dewis byw a gweithio yn y gymuned leol. Mae'r thema'n gysylltiedig â pholisi a chymorth adfywio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella canol trefi. Mae'r agwedd hon ar y Cynllun Bro yn cael ei llywio gan Strategaeth Adfywio Aberteifi (2023), ynghyd â chonsensws cyffredinol ynghylch prosiectau ac ymyraethau allweddol sydd wedi llywio cymeradwyaeth y Cyngor Tref.

Yr Amgylchedd:

Creu cymunedau gwyrddach, cynaliadwy ac iddynt gysylltiadau da, sy'n cymryd camau i leihau allyriadau carbon a gwella bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo'r amgylchedd lleol a rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae'r thema'n hyrwyddo amcanion sirol a chenedlaethol, yn ogystal â thargedau allyriadau carbon i ddiogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Caiff y thema ei llywio gan y cynllun seilwaith Gwyrdd a Glas ar gyfer y dref a chyfleoedd allweddol yr hoffai'r Cyngor Tref eu symud yn eu blaen a'u blaenoriaethu.



Golygfa o'r Terasau o'r Pier

DRAFT

## Themâu Cyffredin Ceredigion

### Llesiant

- Hygyrchedd
- Teithio llesol
- Cymuned
- Llwybrau beicio
- Gofal iechyd
- Iechyd a llesiant
- Hamdden
- Cyfleusterau cyhoeddus
- Hamdden
- Chwaraeon
- Twristiaeth
- Trafnidiaeth
- Llwybrau cerdded

### Creu Lleoedd

- Llety
- Amgylchedd adeiledig
- Gerddi cymunedol
- Darpariaeth gymunedol
- Cyfleoedd datblygu
- Mannau gwyrdd
- Gwelliannau i’r stryd fawr
- Gwell ffryntiadau
- Parcio
- Cerddwyr
- Hyrwyddo a rheoli
- Arwyddion
- Cymeriad y dref
- Sgwâr y dref
- Rheoli traffig

### Treftadaeth a Diwylliant

- Cymeriad pensaernïol
- Treftadaeth bensaernïol
- Cadwraeth
- Diwylliant
- Treftadaeth
- Cyd-destun hanesyddol
- Diwylliant hanesyddol
- Y Gymraeg

### Yr Economi

- Atyniadau
- Cyrchfan
- Yr economi
- Addysg
- Tirnodau
- Busnesau lleol
- Marchnata
- Hyrwyddo
- Twristiaeth

### Yr Amgylchedd

- Mynediad
- Newid yn yr hinsawdd
- Llifogydd
- Seilwaith gwyrdd
- Tirwedd
- Yr amgylchedd morol
- Yr amgylchedd naturiol
- Cynaliadwyedd
- Teithio cynaliadwy
- Rheoli gwastraff

Themâu cyffredin ledled Cynlluniau Bro Ceredigion

**2.1.4 Deddfwriaeth Llesiant**

Cymru oedd y wlad gyntaf i ddeddfu Llesiant yn y gyfraith ac mae'r ddeddfwriaeth hon yn treiddio i lawr i bob prosiect a chynllun yng Nghymru. Mae'r nodau llesiant a'r pum ffordd o weithio sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel y'u hamlinellir ar lefel leol yng Nghynllun Llesiant Lleol Ceredigion 2018-2023, wedi llywio datblygiad y Cynllun Bro hwn.


Wrth ddatblygu Cynllun Bro, mae'n hollbwysig bod y saith nod llesiant yn cael eu cadw yn rheng flaen y meini prawf allweddol. Bydd y nodau yr anelir atynt yn bodloni'r cyfrifoldebau a roddir ar gynghorau i gyflawni'r amcanion hyn. Mae'n ddyletswydd ar bawb i gefnogi'r broses o wreiddio'r nodau llesiant yn nyfodol Ceinewydd.

**2.1.5 Diben a Budd y Cynllun**

Bellach, mae gan gymunedau Cymru fwy o gyfle nag erioed o'r blaen i lunio dyfodol y lleoedd y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Mae gan y Cynllun Bro y potensial i weithredu fel Grant Cynhyrchu Cynaliadwy dan arweiniad y gymuned ar gyfer yr awdurdod lleol, ac i gynorthwyo gyda phenderfyniadau a chynlluniau mewn perthynas â defnyddio a datblygu tir, a newidiadau a gwelliannau i wasanaethau lleol. Gall y ddogfen gynorthwyo i gyflawni dyheadau lleol a gwella llesiant cymunedol trwy nodi uchelgeisiau'r gymuned leol a denu cyllid i'w gwireddu.

Bydd y Cynllun Bro yn nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi, yn dylanwadu ar benderfyniadau cynllunio yn y dref yn y dyfodol, ac yn creu tystiolaeth i helpu i ddenu buddsoddiad a chyfeirio gwaith sefydliadau'r dref i'r dyfodol.

Rhagwelir y bydd Cynllun Bro Ceinewydd yn cael ei ddefnyddio yn ogystal i gefnogi ceisiadau am gyllid lle bo hyn yn codi, a hynny trwy nodi blaenoriaethau'r Cyngor Tref a'r gymuned o ran defnydd tir a datblygu, a'u prosiectau arfaethedig.




Y saith nod llesiant a nodir gan 'Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'

DRAFT

DRAFT

### 2.2 Dull Gweithredu

Paratowyd y Cynllun dan arweiniad swyddogion Cyngor Sir Ceredigion ac ymgynghorwyr a benodwyd ganddynt. Darparodd hyn fframwaith ar gyfer y Cynllun.

Ymgysylltwyd â'r cyhoedd trwy gyfrwng digwyddiadau ymgynghori, lle bu i breswylwyr lleol gyfrannu at y Cynllun a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol.

#### 2.2.1 Ffiniau'r Cynllun Bro

Mae Ceinewydd yn ardal gwasanaethau lleol ar gyfer pentrefi a chymunedau cyfagos Gilfachreda, Maen-y-groes, Cross Inn a Phentre'r-bryn, ac mae o fewn ward etholiadol Cyngor Sir Ceredigion. Mae preswylwyr yr ardaloedd hyn yn dibynnu ar amwynderau'r dref, gan gynnwys y feddygfa, y fferyllfa, y siopau, y sefydliadau bwyd, a'r tafarndai. At hynny, ceir nifer o barciau gwyliau yn y pentrefi hyn sy'n cynnig llety uchel ei safon i dwristiaid sy'n ymweld â Cheinewydd.

Gellir gweld twf anheddiad Ceinewydd yn y diagramau isod sy'n amrywio o'r 1800au i 2024.

Allwedd:

- Ffin yr arfordir
- 1800au
- 1930au
- 1980au
- 2024
- Ffin yr anheddiad





1800au | 1930au | 1980au | 2024

Twf anheddiad Ceinewydd

### 2.2.2 Gweithredu Cymunedol

Mae gweithdy rhanddeiliaid ac ymgyngoriadau cychwynnol â phreswylwyr a chynrychiolwyr y Cyngor Tref wedi cyfrannu at y cynllun cychwynnol hwn a llunio'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Mae Cynllun Bro Ceinewydd yn ei gamau cynnar, ac yn amlinellu themâu a syniadau sy'n dod i'r amlwg. Mae gwaith ymgynghori, ymgysylltu â'r gymuned, datblygu ac adolygu pellach yn angenrheidiol. Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag ymgynghorwyr ac arbenigwyr yr Awdurdod Lleol, mae'r Cynllun Bro drafft yn ddogfen fyw y gall y Cyngor Tref ei hadolygu a'i diweddaru.

Ymgymerwyd ag ymarfer mapio, a marciodd y cyfranogwyr fapiau i ddelweddu defnydd a datblygiad tir cyfredol ac yn y dyfodol, a newidiadau a gwelliannau i wasanaethau lleol. Defnyddiwyd y themâu canlynol i lywio'r drafodaeth:

- Llesiant.
- Creu Lleoedd.
- Hanes a Diwylliant.
- Yr economi.
- Yr Amgylchedd.

### 2.2.3 Adborth y Gymuned

Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar dri chwestiwn allweddol a oedd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr fyfyrio ar gyflwr cyfredol y dref a rhannu syniadau am ei dyfodol. Yn ystod y sesiwn ymgysylltu, bu rhanddeiliaid lleol a'r cyhoedd yn myfyrio ar yr agweddau ar y dref sy'n gweithio'n dda, yr hyn y maent yn ei ragweld ar gyfer y degawd nesaf, a pha newidiadau a allai gael yr effaith fwyaf sylweddol.



Sesiwn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer drafftio Cynllun Bro Ceinewydd, Medi 2024


DRAFFT

### 2.3 Ymatebion

- Asedau:
  Tynnodd y cyfranogwyr sylw at sawl nodwedd sydd eisoes o fudd i'r dref, er enghraifft y teithiau cwch poblogaidd i granca a gwylio bywyd gwyllt. Amlygwyd yr harbwr, y traethau a'r bensaernïaeth leol fel atyniadau o bwys, a disgrifiwyd Neuadd Goffa Ceinewydd fel hwb canolog i'r dref. Yn ogystal, ystyrid awyrgylch croesawgar y dref a'r cyfleoedd i hwylio yn asedau cryf.

- Gweledigaeth:
  Wrth ragweld dyfodol y dref, mynegodd y cyfranogwyr awydd i gadw ei chymeriad hanesyddol, ochr yn ochr â mynd i'r afael â heriau megis parcio a thagfeydd tymhorol. Roedd y syniadau'n cynnwys gwella'r cynigion ar gyfer bwyd a diod, gwarchod y dirwedd a'r dreftadaeth, gwella mynediad at wasanaethau meddygol, a gwella cyfleusterau'r ysgol i'r plant. Roedd yna alw hefyd am gymuned fwy ymgysylltiol, gwell defnydd o gyfleusterau megis Neuadd Goffa Ceinewydd, a gwneud y dref yn fwy hygyrch a bywiog gydol y flwyddyn.

- Ymyrraeth:
  I wneud newid cadarnhaol sylweddol, awgrymodd y cyfranogwyr fod gwell rheolaeth ar draffig yn cael ei gyflwyno, gan gynnwys gwasanaethau parcio a theithio neu wennol i leihau'r angen i barcio yng nghanol y dref. Amlygwyd hefyd gynigion ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, canolfannau gweithgarwch ar gyfer pob tymor, a gwell cyflogaeth dymhorol. Roedd yna alwadau i gyflwyno mwy o weithgareddau dan do, yn enwedig ar gyfer tywydd gwael. Yn ogystal, tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr angen i wella hygyrchedd trwy gael llwybrau diogel i'r dref, a chynyddu ffocws y cyngor lleol ar yr arfordir a'r harbwr.





Sesiwn Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer Drafftio Cynllun Lle Ceinewydd, Medi 2024

Yr harbwr, lle anhygoel i wylio bywyd gwyllt.

Gallai Ceinewydd fod yn gyrchfan wyliau, a gellid gwella'r ardaloedd cyfagos gyda gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc.


Cadw pensaernïaeth draddodiadol ac estheteg yr adeiladau cyfredol yng Ngheinewydd. Gwell llwybrau hygyrchedd.

DRAFT




Golygfa o’r harbwr, gyda’r parciau gwyliau yn y cefndir

DRAFT


Cyrchfan
Tirwedd
Byw a Gweithio
Cymuned
Cynaliadwyedd
Rheoli Traffig
Iechyd a Llesiant
Gwelliannau i'r Stryd Fawr

DRAFT

DRAFT

### 3.1 Gweledigaeth a Strategaeth

Y weledigaeth ar gyfer Ceinewydd yw iddo barhau i fod yn lle bywiog, hygyrch a chroesawgar i bobl leol ac ymwelwyr, lle sy'n ymfalchïo mewn cefnogi'r gymuned leol ac mewn bod yn gyrchfan twristiaid cyfoethog ei hanes a'i gweithgareddau, a hynny oll gan barchu'r harddwch naturiol cyfagos. O ystyried mai twristiaeth sy'n llywio economi Ceinewydd, mae'n hanfodol sicrhau bod y gymuned leol wedi'i hintegreiddio'n dda iddi. Dylid hyrwyddo'r sector lletygarwch a'i drawsnewid yn llwybr gyrfa gwerth chweil ac uchel ei barch. Yn hanfodol yn ogystal y mae darparu tai fforddiadwy uchel eu safon mewn lleoliadau priodol yn y gymuned arfordirol. I grynhoi, mae'r weledigaeth ar gyfer Ceinewydd yn croesawu agwedd gyfannol at ddatblygiad sy'n cydbwyso twf economaidd â stiwardiaeth amgylcheddol a llesiant y gymuned.

I sicrhau cynnydd, mae'r strategaeth yn golygu nodi prosiectau allweddol a sefydlu cynllun gweithredu ac iddo amserlenni clir. Mae hyn yn cynnwys cynnal a gwella prif atyniadau'r dref, megis y pier, yr harbwr a'r traeth.

Er mwyn llywio a goruchwylio'r rhaglen, dylid sefydlu bwrdd strategol sy'n cynnwys y Cyngor Tref, y Cyngor Sir, a rhanddeiliaid lleol. Byddai'r bwrdd hwn yn gyfrifol am gydlynu ymdrechion, sicrhau cyllid, a gofalu bod prosiectau'n cyd-fynd ag anghenion a gwerthoedd y gymuned. Byddai ymgyngoriadau rheolaidd â phreswylwyr a busnesau yn sicrhau bod y cynlluniau datblygu yn gynhwysol ac yn adlewyrchu dyheadau'r gymuned.

### 3.2 Blaenoriaethau

Mae'r Cynllun Bro yn pwysleisio pwysigrwydd cefnogi busnesau lleol trwy gydol y flwyddyn, gan gadw harddwch naturiol y dref a sicrhau gwaith cynllunio cadarn sy'n addasu i anghenion y dyfodol, yn enwedig mewn ymateb i'r newidiadau diweddar mewn patrymau twristiaeth. Mae blaenoriaethau allweddol y Cynllun Bro hwn yn cynnwys y canlynol:

1. Mae gwella'r seilwaith yn hanfodol, yn enwedig o ran mynd i'r afael â phroblemau parcio a threialu cynllun parcio a theithio i leddfu tagfeydd traffig tymhorol.

2. Dylid parhau i gefnogi a gwella gwasanaethau cymunedol, gan gynnig cyfleoedd amrywiol a chyffrous i ieuenctid lleol a'r gymuned ehangach.

3. Mae tai fforddiadwy yn hanfodol i gynnal poblogaeth gytbwys ac amrywiol ac i sicrhau bod y gymuned leol yn cael ei lletya'n dda mewn tai addas.

4. Bydd strategaeth farchnata wybodus, briodol a chydlynol yn gwella gwelededd Ceinewydd i ddarpar ymwelwyr. Dylai'r strategaeth hon adeiladu ar gryfderau Ceinewydd o fod yn gyrchfan glan môr ac iddi hanes cyfoethog, gan sicrhau ei bod yn cael ei chynrychioli'n dda ac yn ddeniadol i dwristiaid.



Golygfa o lan y môr



Teras Glanmor

DRAFT

DRAFT

## Themâu ar gyfer Ceinewydd

### Llesiant

- Trafnidiaeth
- Parcio
- Llwybrau cerdded
- Iechyd a llesiant
- Teithio cynaliadwy
- Hygyrchedd
- Cymuned
- Llwybrau beicio
- Teithio llesol

### Creu Lleoedd

- Tai fforddiadwy
- Dynodi llwybrau
- Cyfleoedd datblygu
- Gwelliannau i'r stryd fawr
- Hyrwyddo a rheoli
- Cymeriad y dref

### Treftdaeth a Diwylliant

- Diwylliant
- Treftadaeth
- Treftadaeth bensaernïol
- Cyd-destun hanesyddol
- Y Gymraeg

### Yr Economi

- Twristiaeth
- Llety
- Atyniadau
- Cyrchfan
- Busnes lleol
- Marchnata
- Hyrwyddo

### Yr Amgylchedd

- Adnoddau naturiol
- Rheoli gwastraff
- Tirwedd
- Amgylchedd morol
- Cynaliadwyedd

Pynciau sy'n dod i'r amlwg o dan eu themâu priodol yng Nghynllun Bro Ceinewydd

# Llesiant



**4.1.1 Trosolwg**

Mae llesiant cymunedol yn hanfodol i ffyniant a datblygiad y dref. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae preswylwyr Ceredigion yn adrodd am lefelau is o ran hapusrwydd, boddhad â bywyd ac ymdeimlad o werth o gymharu â chyfartaleddau'r DU a Chymru. Yn ogystal â hynny, mae Asesiad o Lesiant Lleol Ceredigion (2022) yn dynodi bod dros hanner yr oedolion (58.4%) dros eu pwysau neu'n ordew. Mae mynd i'r afael â'r materion hyn yn hollbwysig, a rhaid i'r dref ddarparu gwell cyfleoedd i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol y preswylwyr.

**4.1.2 Amcanion**

Er mwyn gwella iechyd y cyhoedd a chreu cymunedau mwy bywiog, hyrwyddo teithio llesol a rhyngweithio â natur, a hynny trwy wella mynediad i'r glannau a datblygu'r llwybrau beicio a llwybrau cerdded cyfredol ymhellach i sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng y bae, y dirwedd amgylchynol a'r dref. Cyflwyno gwell canolfannau gweithgareddau ar gyfer pob grŵp oedran ledled y dref, a chynnal y ddarpariaeth iechyd ac addysg gyfredol, gan sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Yn ogystal, mynd i'r afael â'r cyfyngiadau yn y drafnidiaeth gyhoeddus trwy archwilio strategaethau i wella dibynadwyedd a chapasiti'r gwasanaethau a hyrwyddo hygyrchedd, a hynny gan sicrhau seilwaith cynhwysol i bob preswylydd, yn cynnwys y rhai y mae ganddynt anableddau.

**4.1.3 Iechyd a Llesiant**

Mae'n hanfodol atal unrhyw doriadau pellach i wasanaethau iechyd. Ar hyn o bryd, mae yna fwlch sylweddol yn y cyllid a'r cymorth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig i bobl ifanc. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae cyfleoedd ac adnoddau yn angenrheidiol, a hynny o bosibl trwy Hwb Ceinewydd yn Neuadd Goffa Ceinewydd. Gallai'r hwb hwn fod yn bwynt canolog ar gyfer cymorth iechyd meddwl, gan ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau y mae mawr eu hangen ar gyfer pobl ifanc yn y gymuned.


**4.1.4 Hygyrchedd**

Yn ystod y sesiwn ymgysylltu, tynnodd y cyfranogwyr sylw at yr angen i wella hygyrchedd i gerddwyr trwy greu llwybrau diogel a chyfleus yn arwain i mewn i'r dref. Pwysleisiwyd pwysigrwydd blaenoriaethu ardaloedd yr arfordir a'r harbwr a sicrhau bod y gwelliannau'n gynhwysol ar gyfer pob unigolyn, gan gynnwys pobl ag anableddau a lefelau symudedd amrywiol. Mae hyn yn cynnwys rheoli a gwella'r cyfleusterau parcio i'r anabl a gwneud y lleoedd parcio ar y stryd mor ddefnyddiol â phosibl i bawb.

Yn ogystal, trwy hyrwyddo a hwyluso mynediad i'r glannau a gweithgareddau dŵr, gellir sefydlu cysylltiad cryfach rhwng y bae, yr arfordir a'r dref. Bydd annog y defnydd o lwybr yr arfordir yn cryfhau'r cysylltiadau hyn ymhellach, gan feithrin cymuned fwy integredig a hygyrch i'r holl breswylwyr ac ymwelwyr.

**4.1.5 Teithio Llesol**

Mae Ceinewydd yn cynnig amrywiaeth o lwybrau a throetffyrdd hudolus sy'n addas ar gyfer lefelau sgiliau amrywiol. Mae'r ardal yn adnabyddus am ei thirweddau hardd, sy'n golygu ei bod yn gyrchfan ddelfrydol ar gyfer hybu ffitrwydd a gweithgareddau awyr agored. Mae gweithgareddau poblogaidd yn cynnwys cerdded llwybr yr arfordir, llwybr Dylan Thomas, a'r traethau. Gall hyrwyddo a datblygu teithio llesol ymhellach ychwanegu at apêl Ceinewydd o fod yn gyrchfan iach ac ecogyfeillgar ar gyfer archwilio a hamddena.




Blaenoriaethau llesiant Ceinewydd

DRAFFT




Golygfa o Gerddi'r Ffynnon

**4.1.6 Hamdden ac Adloniant**

Mae yna botensial i wella'r cyfleusterau o amgylch y Neuadd Goffa i wasanaethu'r ieuenctid a'r gymuned ehangach yn well. Mae'r cynlluniau'n cynnwys uwchraddio'r cyrtiau tennis a datblygu safle'r hen lyfrgell i ffurfio gardd gymunedol i breswylwyr ac i'r ysgol leol, nad oes ganddi ardd ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae'r Cyngor Tref wrthi'n chwilio am dir ar gyfer trac pwmpio newydd i ddisodli'r hen barc sgrialu. Caiff y prosiect hwn ei ariannu trwy grantiau, cronfeydd wrth gefn y Cyngor Tref, a gweithgareddau codi arian. Mae traciau pwmpio yn hawdd eu defnyddio, yn darparu ar gyfer lefelau sgiliau amrywiol, ac yn wych ar gyfer dysgu hanfodion beicio mynydd a gwella iechyd cardiofasgwlaidd.

Mae'r clwb pêl-droed lleol a chlybiau chwaraeon amrywiol, gan gynnwys y clwb rhwyfo môr, yn chwarae rhan hanfodol o ran hyrwyddo gweithgarwch corfforol ac ymgysylltiad cymunedol. Mae'n hanfodol cadw'r mentrau hyn a'u gwella ymhellach. Dylai'r clwb rhwyfo môr a mentrau chwaraeon dŵr eraill sicrhau mynediad diogel i'r dŵr a pharhau i gefnogi digwyddiadau megis y regata flynyddol, sy'n annog cystadlaethau chwaraeon lleol. Bydd hyrwyddo a gwella'r mentrau hyn yn denu preswylwyr ac ymwelwyr, gan wella enw da Ceinewydd ymhellach o ran bod yn hwb ar gyfer gweithgareddau chwaraeon dŵr. Yn ei dro, bydd hyn yn hybu ffordd iachach a mwy egnïol o fyw i'r holl breswylwyr, gan annog mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon a digwyddiadau lleol.

**4.1.7 Trafnidiaeth**

Yn ystod y sesiwn ymgysylltu, mynegodd preswylwyr bryderon ynghylch cyfyngiadau'r drafnidiaeth gyhoeddus leol, yn enwedig nad yw bysiau'n cyrraedd yn aml neu nad oes lle i deithwyr arnynt am eu bod yn llawn. Awgrymasant archwilio strategaethau i flaenoriaethu trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gwella hygyrchedd.

Tynnodd preswylwyr sylw hefyd at newidiadau diweddar i wasanaethau TrawsCymru yng Ngheinewydd. Yn ôl gwefan TrawsCymru, ar 17 Mehefin 2024 cyflwynwyd amserlen newydd ar gyfer gwasanaeth y bws T5. Fodd bynnag, mae preswylwyr yn poeni am y gostyngiad yn y gwasanaeth i Geinewydd dan yr amserlen newydd hon.

**4.1.8 Camau Gweithredu**

- Mae Neuadd Goffa Ceinewydd a'r ardaloedd cyfagos yn asedau cymunedol allweddol i'r dref. Parhau i ddarparu cyfleoedd ac annog gweithgareddau megis grwpiau cerdded, grwpiau garddio a chlybiau ieuenctid yn y Neuadd Goffa ac o'i hamgylch, neuadd sy'n gwasanaethu fel y prif hwb cymunedol yn y dref.
- Cynnal y ddarpariaeth iechyd gyfredol, a hyrwyddo'r ddarpariaeth iechyd ac addysg leol, gan sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned leol.
- Gwella mynediad i'r traeth i bob defnyddiwr, gan gynnwys brigdonwyr a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dŵr eraill.
- Gwella mynediad i'r anabl ar hyd a lled y dref.
- Sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng y bae, y dirwedd oddi amgylch, a'r dref. Cysylltu Traeth Dolau, Harbwr Ceinewydd, Traeth Ceinewydd, Parc Gwyliau Quay West, a Thraeth Cei-bach yn rhan o strategaeth creu lleoedd.
- Yn rhan o brofiad ymwelwyr â'r dref, hyrwyddo profiadau egnïol a rhyngweithiadau â natur a'r diwylliant lleol. Gwella a datblygu llwybrau beicio, llwybrau natur a throetffyrdd i hyrwyddo rhyngweithiadau â byd natur, gydag opsiynau ar gyfer gweithgareddau dan do ac awyr agored, cyfleusterau chwaraeon, ac amwynderau hamdden yng Ngheinewydd ac oddi amgylch.
- Hyrwyddo gwell canolfannau gweithgarwch ac amwynderau hamdden ar gyfer pob grŵp oedran ar hyd a lled y dref; mae hyn yn cynnwys ystod o brosiectau sy'n darparu gwell cefnogaeth i bobl ifanc ac yn cynnig dulliau dan arweiniad teuluoedd i alluogi plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau ehangach i gael eu grymuso.
- Dylid parhau i gefnogi gerddi cymunedol, perllannau, a phrosiectau garddwriaethol. Mae yna amrywiaeth o gyfleoedd yn bodoli ar gyfer grwpiau tyfu a chymunedol lleol i gefnogi iechyd, llesiant a gweithgarwch cymdeithasol preswylwyr ledled y dref.
- Sicrhau bod Ceinewydd yn parhau i fod â chyswllt da ag aneddiadau cyfagos a threfi mwy trwy gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus effeithlon. Mynd i'r afael â chyfyngiadau'r drafnidiaeth gyhoeddus trwy archwilio strategaethau i wella dibynadwyedd a chapasiti'r gwasanaethau.

**4.1.9 Polisïau a Chysylltiadau Llesiant**

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol wrth iddo ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwyso: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| we-01 | Cefnogir cynigion ar gyfer llwybrau cerdded a beicio newydd neu welliannau i rwydweithiau presennol (gan gynnwys arwyddion priodol). Rhaid i bob datblygiad newydd ystyried cyflwyno seilwaith teithio llesol newydd neu ehangiad sy'n gymesur â'r anghenion sy'n codi o'r datblygiad. | Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 Polisi 12: Cysylltedd Rhanbarthol, a Pholisi DM04 y CDLl: Seilwaith Teithio Cynaliadwy fel Ystyriaeth Berthnasol Polisi DM05 y CDLl: Datblygu Cynaliadwy a Lles Cynllunio. |

DRAFT

# Creu Lleoedd



#### 4.2.1 Trosolwg

Yn 2009, cynigiodd Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) 'Drên Ffordd Ceinewydd' fel ateb posibl i leihau tagfeydd traffig yr haf. Nod y fenter hon oedd creu trên ffordd i gludo teithwyr o dri maes parcio Ceinewydd i'w draeth. Er na sicrhaodd y prosiect arian ar y pryd, gellid ei ailystyried yn rhan o strategaeth rheoli traffig newydd i fynd i'r afael â phroblemau'r tagfeydd tymhorol presennol.

Yn ogystal, dylid gwella'r ddarpariaeth tai yn y dref. Mae'r Adroddiad Diweddaru Economaidd (CSC Hydref 2020) yn nodi cynnydd o 8.8% ym mhrisiau tai Ceredigion ers y flwyddyn flaenorol, cynnydd, yn ôl pob tebyg, y bu i'r newid i weithio gartref o ganlyniad i'r pandemig fod yn ddylanwad arno gan iddo'i gwneud yn bosibl i breswylwyr dinasoedd symud i ardaloedd gwledig, megis Ceinewydd, heb aberthu eu hincwm. Yn rhan o is-ardal y farchnad dai arfordirol, mae tref Ceinewydd yn cael ei chynnwys yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA 2019), sy'n cynghori y dylai o leiaf 32% o dai newydd fod yn fforddiadwy.

#### 4.2.2 Amcanion

Rheoli tagfeydd cerbydau tymhorol trwy archwilio opsiynau i gyflwyno cynlluniau parcio a theithio i leihau'r angen am leoedd parcio yng nghanol y dref, gan eu cysylltu ag arosfannau'r drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau'r arfordir. Uwchraddio arwyddion y dref a'r arwyddion dynodi llwybrau fel eu bod yn fwy gweladwy i dwristiaid, gan olygu ei bod felly'n haws dod o hyd i'r llwybrau a'u bod yn fwy deniadol i'w harchwilio. Mynd ati i hyrwyddo a datblygu asedau cymunedol cyfredol a newydd ymhellach, megis y Neuadd Goffa a'r gerddi cymunedol, gan sicrhau bod y dref yn darparu cyfleoedd amrywiol ar gyfer creu cymunedau bywiog. Er mwyn sicrhau bod tai newydd yn diwallu anghenion y gymuned, annog y cyngor tref a'r cymunedau lleol i gymryd rhan mewn gweithgarwch gwerthuso cynlluniau datblygu newydd.

#### 4.2.3 Darpariaethau Cymunedol

I wella'r cysylltiad rhwng y glannau a'r dref, a gwneud yr harbwr, sef ased pwysicaf Ceinewydd, yn fwy deniadol, byddai ychwanegu cabanau glan môr ac unedau rhentadwy yn darparu mannau cyfleus i gysgodi, coginio, newid a storio, gan annog pobl i aros yn hirach ar y traeth. Byddai'r dref yn elwa'n fawr yn ogystal o fwy o leoedd ar gyfer clybiau ieuenctid. Byddai'r mannau hyn yn cynnig amgylchedd diogel a deniadol i bobl ifanc gymdeithasu, dysgu sgiliau newydd, a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.


#### 4.2.4 Datblygiadau yn y Dyfodol

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gefnogi cynlluniau tai fforddiadwy, ar yr amod bod y datblygiadau hyn yn cadw cymeriad hanesyddol y dref. Mae mynd i'r afael ag anghenion tai lleol yn flaenoriaeth, ac mae'n hollbwysig rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gymuned Ceinewydd am brosiectau tai newydd. Mae gwaith ymgynghori gweithredol â phreswylwyr yn hanfodol i ddeall a diwallu gofynion penodol y dref. Yn ogystal, dylai fod yna fwy o dryloywder ac eglurder ynghylch unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol, yn enwedig mentrau tai newydd, i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion a disgwyliadau'r gymuned.

#### 4.2.5 Rheoli Traffig

Mae mynediad i ran hanesyddol Ceinewydd wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd ac, i fynd i'r afael â hyn, dylid rhoi ystyriaeth i sawl strategaeth rheoli traffig:

1. Rhoi'r Flaenoriaeth i Gerddwyr: Sefydlu parthau cyfeillgar i gerddwyr, a gwella'r llwybrau cerdded i sicrhau mynediad diogel a hawdd.
2. Gwella'r Llwybrau Beicio: Datblygu lonydd beicio pwrpasol i annog beicio fel prif ddull teithio.
3. Gwella'r Mynediad i Fysiau: Sicrhau bod llwybrau'r drafnidiaeth gyhoeddus yn effeithlon a bod bysiau'n gallu llywio eu ffordd yn hawdd trwy'r ardal.
4. Sefydlu Hybiau Gwefru Cerbydau Trydan: Gosod gorsafoedd gwefru cerbydau trydan i gefnogi'r nifer cynyddol o gerbydau trydan a hyrwyddo teithio cynaliadwy.




Blaenoriaethau creu lleoedd Ceinewydd

#### 4.2.6 Parcio

Profi cynllun parcio a theithio yn ystod y tymor prysur i reoli'r nifer cynyddol o ymwelwyr. Bydd y cynllun hwn yn defnyddio bysiau gwennol neu drenau tir i gludo ymwelwyr o fannau parcio dynodedig ar y cyrion i leoliadau allweddol yng Ngheinewydd. Bydd yn cysylltu ag arosfannau'r drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau'r arfordir, ac yn cynnwys mannau gollwng a chodi wedi'u lleoli'n strategol ledled y dref.

#### 4.2.7 Gwelliannau i'r Stryd Fawr

Mae gofyn am well cydlyniad a chysondeb o ran safon yr eitemau stryd, megis meinciau, bolardiau, biniau gwastraff, arwyddion priffyrdd ac arwynebau ffyrdd, i wella estheteg ac ymarferoldeb mannau cyhoeddus. Yn ogystal, dylai'r goleuadau stryd gwael eu safon ar yr adeiladau rhestredig a hanesyddol, yn enwedig o amgylch y terasau gogleddol, gael eu huwchraddio i osodiadau gwell eu dyluniad sy'n ategu'r bensaernïaeth ac a fydd yn gwella'r apêl weledol a diogelwch i gerddwyr.

#### 4.2.8 Arwyddion

Gellir hyrwyddo'r profiad o asedau naturiol a thirwedd unigryw Ceinewydd trwy wella'r arwyddion dynodi llwybrau. Mae hyn yn cynnwys arwyddion clir a mapiau rhyngweithiol ar gyfer llwybrau cerdded a beicio i gysylltu ardaloedd allweddol a thywys ymwelwyr. Bydd system dynodi llwybrau wedi'i dylunio'n dda yn cyfeirio cerddwyr at fannau pwysig, megis llwybr yr arfordir a Llwybr Dylan Thomas, gan sicrhau eu bod yn hawdd eu llywio.

Yn ystod y sesiwn ymgysylltu, awgrymodd y cyfranogwyr ddefnyddio deunyddiau o ffynonellau lleol ar gyfer arwyddion a chreu llwybr treftadaeth. Awgrymwyd Llwybr Dylan Thomas a Llwybr Arfordir Cymru, y ddau wedi'u dynodi ag arwyddion clir, yn enghreifftiau llwyddiannus o'r mentrau hyn.

Yn ogystal â'r gwelliannau hyn, mae datblygu arwyddion cydlynol sy'n amlygu prif atyniadau'r dref yn hollbwysig. Dylid arddangos y rhain yn amlwg wrth byrth y dref i wneud Ceinewydd yn fwy amlwg a deniadol i ymwelwyr wrth iddynt ddynesu.

#### 4.2.9 Camau Gweithredu

- Dylid cynllunio ar gyfer yr anghenion a'r capasiti o ran tai yn fwriadus a chydag uchelgais, gan gynnal yr hunaniaeth. Dylai'r cyngor tref a'r gymuned leol fod yn rhan o'r gwaith o werthuso cynlluniau datblygu sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys tai fforddiadwy i bobl ifanc.
- Canolbwyntio ar gynlluniau sy'n hyrwyddo blaenoriaeth i gerddwyr yng nghanol y dref, a rheoli tagfeydd cerbydau tymhorol. Archwilio opsiynau i gyflwyno cynllun parcio a theithio (trwy gyfrwng bws gwennol neu drên ffordd) i leihau'r angen am leoedd parcio yng nghanol y dref, a'i gysylltu ag arosfannau'r drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau'r arfordir.
- Datblygu strategaeth rheoli traffig ar gyfer y tymhorau tawel a phrysur.
- Archwilio opsiynau ar gyfer cabanau glan môr/gofodau rhentadwy i deuluoedd, a'u gosod mewn lleoliadau sefydlog neu dros dro i ddarparu lloches breifat neu gymunedol, a chyfleusterau coginio, newid a storio ar y traeth.
- Sicrhau bod y diwydiannau lleol yn cael y gwasanaethau a'r seilwaith cywir i ddiwallu anghenion a gofynion diwydiant ar hyd yr arfordir.
- Gwella'r arwyddion ar gyfer defnyddwyr cerbydau a cherddwyr, yn enwedig wrth ddynesu at ganol Ceinewydd. Lle bo modd, gwella'r arwyddion dehongli ar hyd y llwybrau cerdded allweddol ledled y dref ac ar lwybr yr arfordir. Mae hyn yn cynnwys defnyddio arwyddion creadigol, arwyddion dynodi llwybrau a mapiau i adrodd straeon ac ennyn diddordeb pobl yn hanes Ceinewydd, a hynny'n rhan o gyfres o lwybrau treftadaeth awyr agored.

#### 4.2.10 Polisïau a Chysylltiadau Creu Lleoedd

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol wrth iddo ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwyso: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| pl-01 | Bydd cynigion sy'n cynnal ac yn gwella bywiogrwydd a hyfywedd Canol y Dref yn cael cefnogaeth gref. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040: Polisi 6: Canol Trefi yn Gyntaf<br>Polisi DM06 y CDLl: Dylunio a Chreu Lleoedd o Ansawdd Uchel<br>Polisi LU18 y CDLl: Cynigion Manwerthu Ledled y Sir<br>Polisi LU19 y CDLl: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol. |



# Treftadaeth a Diwylliant


DRAFT

DRAFT

**4.3 Treftadaeth a Diwylliant**

Dechreuodd Ceinewydd dyfu ym mlynyddoedd olaf y 18fed ganrif, wrth i'r diwydiant adeiladu llongau fynd ar gynnydd. Adeiladwyd y dref yn bennaf yn y 19eg ganrif, ac ehangodd yn gyflym yn dilyn adeiladu pier carreg yno yn 1834. Roedd yr hwb hwn mewn masnach wedi denu mudwyr economaidd, ac arweiniodd hynny at godi cartrefi newydd. Wrth i'r diwydiant adeiladu llongau ffynnu, adeiladwyd tai teras ar hyd y llethrau sy'n edrych dros y bae cysgodol, gan roi i'r dref ei chymeriad unigryw.

Mae nifer o adeiladau rhestredig dynodedig yng Ngheinewydd, gan gynnwys Capel Presbyteraidd y Tabernacl, Eglwys Sant Llwchaiarn, y Pier, gan gynnwys y Llithrfa Gyfochrog, a rhesi o dai teras. Mae'r Ardal Gadwraeth yn cynnwys rhan ganolog hŷn y dref. Mae yma 89 o adeiladau rhestredig.




Allwedd:

- - Ardal Gadwraeth

Rhestredig

#### 4.3.1 Trosolwg

Mae Ceinewydd yn ymfalchïo yn ei gymeriad a'i hunaniaeth unigryw. Yn ystod y sesiwn ymgysylltu, mynegwyd bod hunaniaeth ddiwylliannol y dref yn ased o bwys. Felly, mae'n hanfodol cadw a hyrwyddo ei gymeriad hanesyddol ym mhob datblygiad yn y dyfodol. Mae cefndir hanesyddol a diwylliannol Ceinewydd yn rhan arwyddocaol o hunaniaeth y dref. Dylai gwarchod y dirwedd a'i threftadaeth fod yn agwedd allweddol ar unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.

#### 4.3.2 Amcanion

Mae hanes morwrol y dref, sy'n dyddio'n ôl i adeiladu'r harbwr yn 1835, yn rhan bwysig o'i hunaniaeth. Mae yna awydd cryf i ehangu'r Ganolfan Dreftadaeth a datblygu llwybr treftadaeth i ddathlu'r etifeddiaeth hon ymhellach. Mae hyrwyddo'r enwau Cymraeg a dwyieithog ar fusnesau a'r strydoedd yn hanfodol i ddathlu'r diwylliant lleol. At hyn, bydd datblygu canllaw dylunio i wella ffryntiadau siopau yn yr ardal gadwraeth yn sicrhau budd mawr ac yn cyfoethogi cymeriad a threftadaeth unigryw'r dref.

#### 4.3.3 Cyd-destun Hanesyddol

Yn dilyn adeiladu'r harbwr yn 1835, dechreuodd y diwydiant adeiladu llongau ffynnu tua diwedd y 19eg ganrif. Mae'r dref wedi cynnal ei hunaniaeth forwrol. Yn y sesiwn ymgysylltu, awgrymodd y cyfranogwyr y dylid datblygu amgueddfa neu lwybr treftadaeth, y gellid ei (d)defnyddio i gadw a hyrwyddo hunaniaeth y dref.

Mae yna awydd yn bodoli i ehangu'r Ganolfan Dreftadaeth bresennol yng Ngheinewydd, sydd ar hyn o bryd mewn lle bach iawn ac yn dibynnu ar wirfoddolwyr. Mae'r Ganolfan, sydd wedi'i lleoli islaw swyddfa'r harbwrfeistr ar y pier, yn gartref i nifer helaeth o arteffactau a gwybodaeth am Geinewydd, gan gynnwys hanes llongau'r dref. Yn ystod y sesiwn ymgysylltu, amlygwyd Llwybr Dylan Thomas fel enghraifft dda o lwybr treftadaeth.

#### 4.3.4 Diwylliant

Mae hyrwyddo enwau Cymraeg a dwyieithog ar gyfer ffryntiadau siopau, busnesau a strydoedd yn hanfodol i gadw a dathlu'r diwylliant lleol. Mae sawl busnes wedi mabwysiadu'r arfer hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyfrannu at gyfoeth diwylliannol y dref. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael cydbwysedd rhwng hybu'r Gymraeg a chynnal y dreftadaeth ddiwylliannol. Mae hyn yn golygu sicrhau bod y defnydd o enwau dwyieithog yn parchu'r gymuned amrywiol. Dylid ymdrechu i addysgu preswylwyr ac ymwelwyr, fel ei gilydd, am arwyddocâd yr iaith Gymraeg a'i rôl yn hanes a hunaniaeth y dref.

#### 4.3.5 Treftadaeth Bensaernïol

Mae gan yr ardal gadwraeth ganolfan fasnachol fach sy'n cynnwys nifer o siopau a busnesau annibynnol, ac mae llawer ohonynt wedi'u lleoli mewn adeiladau na chawsant eu cynllunio'n wreiddiol at ddefnydd masnachol. Canlyniad hyn yw diffyg blaenau siopau traddodiadol, ac mae maint rhai o arwyddion y siopau yn wael neu mewn lleoliad amhriodol. Er nad yw blaenau siopau traddodiadol bob amser yn angenrheidiol nac yn briodol ar gyfer yr ardal, gallai rhai siopau elwa o flaenau sydd wedi'u trefnu'n fwy ffurfiol. Dylid ystyried lleoliad, dimensiynau a deunyddiau'r hysbysebion mewn bod.

#### 4.3.6 Camau Gweithredu

- Sicrhau bod y pier yn cael ei reoli a'i gynnal yn ddigonol, a bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud i gadw'r adeiladwaith, sy'n dirnod hanesyddol allweddol yn y dref.
- Mae angen rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygiadau newydd, yn unol â chymeriad a hunaniaeth gyfredol y dref.
- I gefnogi rhaglen ddiwylliannol y dref, edrych ar gyfleoedd i ailddefnyddio adeiladau gwag cyfredol yng Ngheinewydd y mae iddynt arwyddocâd hanesyddol.
- I ddarparu argymhellion a safonau manwl ar gyfer edrychiad blaenau ac arwyddion siopau, datblygu canllaw dylunio blaenau ac arwyddion siopau sy'n benodol i Geinewydd, a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chymeriad a threftadaeth unigryw'r dref.

#### 4.3.7 Polisïau a Chysylltiadau Treftadaeth a Diwylliant

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol wrth iddo ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwyso: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| hc-01 | Bydd datblygiadau sy'n hwyluso ailddefnydd o adeiladau treftadaeth gwag neu rai nad ydynt yn cael eu defnyddio'n ddigonol yn cael cefnogaeth lle cânt eu cynllunio i warchod, cadw a gwella cymeriad yr adeilad. | LIC TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol Polisi DM19 y CDLI: Tirwedd Hanesyddol a Diwylliannol. |

DRAFT



Palet deunyddiau Ceinewydd

DRAFT

DRAFT




# Yr Economi

**4.4.1 Trosolwg**

Mae Tyfu Canolbarth Cymru yn amlygu twf sylweddol sector twristiaeth y rhanbarth yn ystod y degawd diwethaf, gyda 23,200 o bobl yn gyflogedig yn y diwydiant. Fodd bynnag, mae cynhyrchiant a chyflogau yn y sector yn parhau i fod yn is na chyfartaledd cyffredinol economi Cymru, gan olygu llai o refeniw. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei botensial, mae'n hanfodol i Ganolbarth Cymru gryfhau deiliadaeth yn ystod y tymor ysgwydd a hyrwyddo gwariant ymwelwyr.

Mae Ceinewydd yn cynnwys amrywiaeth o fusnesau bach, gan gynnwys orielau celf, siopau crefftau, siopau anrhegion, siop fwyd, a siopau arbenigol megis gwerthwyr pysgod. Oherwydd cyfyngiadau ariannu, nid oes unrhyw safleoedd cyflogaeth amlddefnydd wedi'u cynllunio ar gyfer y Ganolfan Gwasanaethau, ac mae datblygiadau yn y dyfodol yn debygol o fod ar ffurf unedau sengl. Nid yw'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn nodi dyraniadau manwerthu, ond mae'r gymuned ar hyn o bryd yn elwa o siopau cyfleustra bach, y dylid eu cynnal. Anogir datblygiad manwerthu pellach os yw'n cyd-fynd â'r polisi cynllunio.

**4.4.2 Amcanion**

Ar yr un pryd â hyrwyddo cynnyrch lleol, dylai busnesau lleol gydweithio ar fargeinion pecyn a marchnata.  Gall y cydweithredu hwn wella llwyddiant unigol a'r twf economaidd cyffredinol. At hyn, byddai'r dref yn elwa o strategaeth hyrwyddo eglur sy'n amlygu hanes, hunaniaeth a chynigion Ceinewydd mewn modd effeithiol. Er bod ehangu'r tymor ysgwydd a gwneud Ceinewydd yn gyrchfan ddymunol trwy gydol y flwyddyn yn bwysig, mae'n hollbwysig sicrhau bod y strategaeth dwristiaeth yn ystyriol o effeithiau amgylcheddol negyddol posibl. Dylai twf cynaliadwy fod yn flaenoriaeth, sef cydbwyso twf twristiaeth â chadw harddwch naturiol ac adnoddau'r dref.


**4.4.3 Busnes Lleol**

Gall annog partneriaethau ymhlith busnesau lleol gryfhau arlwy twristiaeth y dref. Gallai busnesau gydweithio ar fargeinion pecyn neu ymgyrchoedd marchnata, gan greu arlwy mwy cydlynol a deniadol i ymwelwyr. Yn ogystal, gall trefnu hyrwyddiadau arbennig neu arddangos cynnyrch lleol roi profiadau unigryw a dilys i dwristiaid, gan wneud Ceinewydd yn fwy nodedig fel cyrchfan gofiadwy. Trwy gydweithio, gall busnesau lleol nid yn unig wella eu llwyddiant unigol ond hefyd gyfrannu at dwf economaidd cyffredinol y dref.

**4.4.4 Twristiaeth**

Mae twristiaeth yng Ngheinewydd yn darparu refeniw hanfodol a sefydlogrwydd economaidd, gan greu swyddi ym maes lletygarwch, manwerthu, trefnu teithiau a chwaraeon. Mae atyniadau megis y teithiau gwylio dolffiniaid yn helpu i roi Ceinewydd ar y map, gan ddenu selogion byd natur a chodi proffil y dref fel cyrchfan unigryw. Fodd bynnag, mae dibyniaeth drom ar ymwelwyr yr haf yn arwain at amrywiadau economaidd, gyda busnes cyfyngedig y tu allan i'r tymor yn effeithio ar sefydlogrwydd trwy gydol y flwyddyn. I fynd i'r afael â hyn, byddai'n fuddiol archwilio cyfleoedd i ehangu'r tymor. Gall hyrwyddo digwyddiadau y tu allan i'r tymor, megis gwyliau bwyd, dathliadau diwylliannol, neu farchnadoedd gaeaf, ddenu ymwelwyr yn ystod y misoedd tawelach. Gall datblygu atyniadau dan do, megis amgueddfeydd, orielau celf neu gyfleusterau chwaraeon dan do, ddarparu gweithgareddau gydol y flwyddyn i dwristiaid. At hyn, mae cynnig pecynnau tymhorol, ac iddynt ostyngiadau ar lety a gweithgareddau wedi'u bwndelu, yn gallu annog rhagor o ymwelwyr.

Wrth symud ymlaen, dylai strategaeth dwristiaeth Ceinewydd fod yn ystyriol o effeithiau negyddol posibl twristiaeth heb ei rheoleiddio. Gall ehangu'r cynigion i ymwelwyr heb gynllunio'n briodol gael effaith sylweddol ar yr ecosystemau lleol, rhoi straen ar y seilwaith, a chynyddu costau byw, elfennau a all, bob un ohonynt, ddylanwadu ar ansawdd bywyd preswylwyr. Er bod twristiaeth yn darparu buddion economaidd gwerthfawr, mae'n hanfodol, er mwyn sicrhau twf cynaliadwy i Geinewydd, fod strategaeth y rhoddir ystyriaeth ofalus iddi ac sy'n mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol yn cael ei rhoi ar waith.




Blaenoriaethau economaidd Ceinewydd

**4.4.5 Llety Ymwelwyr**

Ffactor arwyddocaol sy'n effeithio ar economi Ceinewydd yw datblygiad parciau carafannau ar ddiwedd yr 20fed ganrif. Ar hyn o bryd, mae'r parciau hyn yn darparu 3,243 o welyau, o gymharu, yn ôl Global Tourism Solutions, â'r 616 o welyau sydd ar gael mewn llety â gwasanaeth, llety hunanarlwyo, ac Airbnb neu lety tebyg yng Ngheinewydd ei hun. Heb os, mae'r mewnlifiad hwn o ymwelwyr wedi dylanwadu ar y dref, gan gyfrannu at ei gweithgarwch economaidd, yn enwedig yn ystod y tymhorau twristiaeth prysur. Fodd bynnag, yn ystod y sesiwn ymgysylltu nodwyd ei bod yn bosibl nad oedd yr ymwelwyr yn y parciau carafannau yn dod i'r dref cymaint â hynny, gan olygu bod llai'n cael ei wario mewn busnesau lleol.

**4.4.6 Hyrwyddo**

Er mwyn cipio a rhannu stori a nodweddion unigryw Ceinewydd yn effeithiol, dylid datblygu strategaeth hyrwyddo eglur. Dylai'r strategaeth hon arwain yr holl ymdrechion cyfathrebu a marchnata yn y dyfodol, a sicrhau eu bod yn cyd-fynd â Chanllaw Hunaniaeth Gystadleuol a Lleoli Ceredigion. Gall presenoldeb bywiog ar-lein ddenu cynulleidfa ehangach trwy arddangos atyniadau Ceinewydd. Gall defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, blogiau teithio, a phartneriaethau â dylanwadwyr twristiaeth wella gwelededd y dref, yn enwedig yn achos twristiaeth arbenigol, megis gwylio bywyd gwyllt.

**4.4.7 Camau Gweithredu**

- Datblygu rhaglen gydol y flwyddyn o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n cynnwys gwyliau, arddangosfeydd, cyfleoedd hamdden, ac ati, a hynny i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac sy'n estyn y tymor ysgwydd ac yn cefnogi'r economi leol. Byddai hyn yn lleihau dibyniaeth y dref ar dwristiaeth haf ac yn creu refeniw mwy sefydlog i fusnesau lleol.
- Annog partneriaethau busnes lleol i wella apêl twristiaeth Ceinewydd a chyfrannu at dwf economaidd y dref.
- Wrth reoli a chynnal y pier, datblygu strategaeth ar y cyd ag adrannau perthnasol yr Awdurdod Lleol i weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o glybiau, cymdeithasau, defnyddwyr masnachol a hamdden.
- Hyrwyddo cynnig lleol amrywiol ar y stryd fawr, a chefnogi busnesau lleol i sicrhau bod nifer y lleoedd gwag ar y stryd fawr yn cael eu cyfyngu.
- Archwilio'r mynediad byrddio yn achos cerbydau masnachol sy'n defnyddio'r harbwr fel eu bod yn dod yn llai dibynnol ar y llanw.

**4.4.8 Polisïau a Chysylltiadau'r Economi**

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol wrth iddo ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwyso: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| ec-01 | Bydd cynigion datblygu sy'n annog twristiaeth a chyfleoedd cyflogaeth lleol yn cael eu cefnogi ar yr amod eu bod yn rhoi blaenoriaeth i ailddefnyddio safleoedd tir llwyd, neu i addasu adeiladau mewn bod. | Polisi LU18 y CDLl: Cynigion Manwerthu Ledled y Sir<br>Polisi LU19 y CDLl: Cynigion Manwerthu mewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol<br>Polisi LU17 y CDLl: Cyfleusterau/Atyniadau Twristiaeth (heblaw am lety). |

DRAFT

# Yr Amgylchedd



DRAFT

### 4.5.1 Trosolwg

Mae ardaloedd rhynglanwol amrywiol, ynghyd â childraethau clyd a thraethau euraidd eang yng Ngheinewydd a Chei-bach, yn nodweddion o'r arfordir. Mae'n cynnwys clogwyni dramatig, cregynnog, yn enwedig i'r de o Geinewydd. Mae tirweddau trawiadol yr ardal, y bywyd gwyllt amrywiol a'r traethau yn atyniadau allweddol sy'n cynnal y dwristiaeth leol ac yn cyfrannu at yr economi. Mae'n hanfodol sicrhau bod y trysorau naturiol hyn yn cael eu diogelu'n dda am genedlaethau i ddod.

### 4.5.2 Amcanion

Mae Ceinewydd yn gyrchfan hardd, ac mae'n hanfodol gwarchod ei harddwch naturiol i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn lle deniadol a bywiog i breswylwyr ac ymwelwyr. Bydd gwarchod ei hamgylchedd naturiol yn cefnogi llesiant cymunedol a ffyniant yn y dyfodol, gyda'r tirweddau, y bywyd gwyllt a'r traethau yn sbarduno'r dwristiaeth a'r economi leol. Mae cynlluniau hirdymor i reoli erydiad a chyflwr yr harbwr yn hanfodol i iechyd yr arfordir. Yn ogystal, mae arferion rheoli gwastraff cynaliadwy yn ofynnol i ddiogelu'r ecosystemau, atal llygredd a diogelu'r bywyd morol. Bydd hefyd yn fuddiol ymgysylltu â phobl leol ac ymwelwyr a'u haddysgu am bwysigrwydd amgylchedd naturiol yr ardal, gan sicrhau yr amlygir parch ato ac y rhoddir ystyriaeth iddo mewn datblygiadau yn y dyfodol. Bydd yr ymdrechion hyn yn helpu Ceinewydd i barhau i fod yn gyrchfan hardd a chynaliadwy am flynyddoedd i ddod.

### 4.5.3 Adnoddau Naturiol

Mae buddsoddi mewn prosiectau cadwraeth arfordirol yn hanfodol i warchod adnoddau naturiol a chynnal harddwch naturiol yr ardal. Mae Ceinewydd yn gartref i nifer o safleoedd amgylcheddol pwysig, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Safleoedd Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS), Coetiroedd Hynafol, ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig Ceredigion.

Mae angen cynlluniau hirdymor i reoli erydiad ac amodau newidiol yr harbwr gan fod y ffactorau hyn yn effeithio'n sylweddol ar iechyd cyffredinol yr arfordir. Gall erydiad arwain at golli tir a chynefinoedd gwerthfawr. Bydd gweithredu mesurau rheoli erydiad effeithiol ac addasu i amodau amgylcheddol newidiol yn helpu i gynnal cyfanrwydd arfordir Ceinewydd.

### 4.5.4 Cynaliadwyedd

Buddsoddi mewn datblygu arferion rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer diogelu ecosystemau lleol. Gall gwaredu ac ailgylchu gwastraff mewn modd priodol atal llygredd, amddiffyn bywyd morol, a sicrhau bod harddwch naturiol Ceinewydd yn cael ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn yn golygu lleihau gwastraff plastig, hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau ecogyfeillgar, ac annog arferion twristiaeth cyfrifol.

### 4.5.5 Ymwybyddiaeth Amgylcheddoless

Mae ymgysylltu â phobl leol ac ymwelwyr a'u haddysgu am bwysigrwydd amgylchedd naturiol yr ardal yn sicrhau ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i warchod wrth gynllunio datblygiadau i'r dyfodol. Mae hyn yn golygu y bydd unrhyw brosiectau newydd neu newidiadau yn yr ardal yn rhoi ystyriaeth i'r angen i warchod harddwch naturiol ac iechyd ecolegol Ceinewydd, elfen a fydd yn arwain at benderfyniadau mwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar. Gall cyfranogiad cymunedol mewn ymdrechion cadwraeth natur feithrin ymdeimlad o stiwardiaeth a balchder yn yr amgylchedd lleol. Gall rhaglenni addysgol, gweithdai ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth amlygu pwysigrwydd cadw harddwch naturiol Ceinewydd ac annog arferion cynaliadwy.

### 4.5.6 Camau Gweithredu

- Hwyluso sgyrsiau a chynlluniau hirdymor i reoli erydiad a chyflwr naturiol newidiol yr harbwr mewn modd priodol. Ystyried cynlluniau ymarferol o ran amddiffyniad rhag y gwynt a sicrhau bod y bywyd morol yn cael ei warchod.
- Archwilio dulliau amgylcheddol mwy gofalus o reoli gwastraff a charthffosiaeth.
- Mae rhoi gwybod i bobl leol ac ymwelwyr am amgylchedd naturiol Ceinewydd, ac ymgysylltu â nhw yn hynny o beth, yn sicrhau ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i ddiogelu mewn prosiectau yn y dyfodol, elfen a fydd yn hyrwyddo penderfyniadau cynaliadwy ac ecogyfeillgar.
- Datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd neu Strategaeth Coed ar gyfer Ceinewydd. Ystyried cynnwys y gymuned leol wrth nodi a mapio coed a grwpiau coed sy'n addas ar gyfer Gorchmynion Cadw Coed.
- Creu menter Caru Cei i hyrwyddo agweddau cadarnhaol Ceinewydd, a hynny trwy annog preswylwyr ac ymwelwyr i ysgwyddo cyfrifoldeb a balchder dinesig mewn cynnal glendid a chymhendod y dref. Bydd y fenter yn cynnwys gweithio gyda rhanddeiliaid a grwpiau gwirfoddol, gan anelu at feithrin ymdeimlad o gymuned a rhannu cyfrifoldeb.


### 4.5.7 Polisïau a Chysylltiadau'r Amgylchedd

Cyhyd â bod y Cynllun Bro yn cael ei fabwysiadu ar ffurf Canllawiau Cynllunio Atodol, dylai'r Polisïau hyn gael eu defnyddio gan y Cyngor Tref ochr yn ochr â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol wrth iddo ymateb i ymgyngoriadau ar geisiadau cynllunio lleol.

Datganiad cymhwyso: yn amodol ar fod yn unol â'r holl bolisïau cynllunio perthnasol a chenedlaethol.

| Cyf | Polisïau | Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol a Lleol Perthnasol |
|---|---|---|
| en-01 | Cefnogir datblygiadau sy'n cynnwys mesurau i gyflawni allyriadau carbon isel trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel. | Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040: Polisi 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig<br>Polisi LU25 y CDLI: Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy. |

DRAFT




Allwedd:

- Coetir Hynafol
- SoDdGA
- Safleoedd Daearegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS)
- Ardaloedd Tirwedd Arbennig Ceredigion
- Ardal Cadwraeth Arbennig
- Llwybr Arfordir Cymru
- Llwybrau Troed
- Ffin yr Anheddiad

DRAFT




Pier Ceinewydd

**4.6 Syniadau ar gyfer Prosiectau**

Trwy gyfrwng y gwaith ymgynghori ac ymgysylltu cychwynnol, mae ystod o syniadau ar gyfer prosiectau wedi cael eu sefydlu, syniadau sy'n cyd-fynd ag amcanion y cynllun.

1. Pedestreiddio a Pharcio
   Canolbwyntio ar gynlluniau sy'n hyrwyddo blaenoriaeth i gerddwyr yng nghanol y dref, a rheoli tagfeydd cerbydau tymhorol. Archwilio opsiynau i gyflwyno cynllun parcio a theithio (trwy gyfrwng bws gwennol neu drên ffordd) i leihau'r angen am leoedd parcio yng nghanol y dref, a'i gysylltu ag arosfannau'r drafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau'r arfordir.

2. Y Pier
   Sicrhau bod y pier yn cael ei reoli a'i gynnal yn ddigonol, a bod gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud i gadw'r adeiladwaith, sy'n dirnod hanesyddol allweddol yn y dref. Mae hyn yn cynnwys datblygu strategaeth ar y cyd ag adrannau perthnasol yr Awdurdod Lleol i sefydlu gwaith partneriaeth ag amrywiaeth o glybiau, cymdeithasau, a defnyddwyr masnachol a hamdden.

3. Y Glannau

   3.1. Byrddio
   Sicrhau bod mynediad i gerbydau masnachol sy'n defnyddio'r harbwr yn datblygu i fod yn llai dibynnol ar y llanw.

   3.2. Hygyrchedd
   Gwell mynediad i'r traeth i bob defnyddiwr, gan gynnwys brigdonwyr a phobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dŵr eraill.

   3.3. Lloches a Chyfleusterau Newid
   Opsiynau ar gyfer cabanau glan môr/gofodau rhentadwy i deuluoedd i gael eu gosod mewn lleoliadau sefydlog neu dros dro er mwyn darparu lloches breifat neu gymunedol, a chyfleusterau coginio, newid a storio ar y traeth.

4. Amgylcheddol
   Hwyluso sgyrsiau a chynlluniau hirdymor ar gyfer rheoli erydiad a chyflwr naturiol newidiol yr harbwr mewn modd priodol. Ystyried cynlluniau ymarferol o ran amddiffyniad rhag y gwynt a sicrhau bod y bywyd morol yn cael ei warchod.

5. Mynediad Diwydiannol a Masnachol
   Sicrhau bod y diwydiannau lleol yn cael y gwasanaethau a'r seilwaith cywir i ddiwallu anghenion a gofynion diwydiant ar hyd yr arfordir.

6. Rheoli Gwastraff
   Archwilio dulliau amgylcheddol mwy gofalus o reoli gwastraff a charthffosiaeth.

7. Iechyd ac Addysg
   Cadw'r ddarpariaeth bresennol, a hyrwyddo darpariaeth iechyd ac addysg leol, gan sicrhau ei bod yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

8. Dynodi Llwybrau
   Gwella'r arwyddion ar gyfer defnyddwyr cerbydau a cherddwyr, yn enwedig wrth ddynesu at ganol Ceinewydd. Lle bo modd, gwella'r arwyddion dehongli ar hyd y llwybrau cerdded allweddol ledled y dref ac ar lwybr yr arfordir. Mae hyn yn cynnwys defnyddio arwyddion creadigol, arwyddion dynodi llwybrau a mapiau i adrodd straeon ac ennyn diddordeb pobl yn hanes Ceinewydd, a hynny'n rhan o gyfres o lwybrau treftadaeth awyr agored.

9. Meddiannaeth ar y stryd fawr
   Hyrwyddo cynnig lleol amrywiol, a chefnogi busnesau lleol i sicrhau bod nifer y lleoedd gwag ar y stryd fawr yn cael eu cyfyngu.

10. Y Neuadd Goffa
    Mae Neuadd Goffa Ceinewydd a'r ardaloedd cyfagos yn asedau cymunedol allweddol i'r dref. Parhau i ddarparu cyfleoedd ac annog gweithgareddau megis grwpiau cerdded, grwpiau garddio a chlybiau ieuenctid yn y Neuadd Goffa ac o'i hamgylch, neuadd sy'n gwasanaethu fel y prif hwb cymunedol yn y dref.

11. Tai
    Dylid cynllunio ar gyfer yr anghenion a'r capasiti o ran tai yn fwriadus a chydag uchelgais, gan gynnal yr hunaniaeth. Dylai'r cyngor tref a'r gymuned leol fod yn rhan o'r gwaith o werthuso cynlluniau datblygu sy'n mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys tai fforddiadwy i bobl ifanc.

12. Cymeriad a Hunaniaeth
    Mae angen rhoi ystyriaeth briodol i ddatblygiadau newydd, yn unol â chymeriad a hunaniaeth gyfredol y dref.

13. Treftadaeth a Diwylliant
    I gefnogi rhaglen ddiwylliannol y dref, edrych ar gyfleoedd i ailddefnyddio adeiladau gwag cyfredol yng Ngheinewydd y mae iddynt arwyddocâd hanesyddol.

14. Cysylltedd
    Sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng y bae, y dirwedd oddi amgylch, a'r dref. Cysylltu Traeth Dolau, Harbwr Ceinewydd, Traeth Ceinewydd, Parc Gwyliau Quay West, a Thraeth Cei-bach yn rhan o strategaeth creu lleoedd.

15. Rhaglen wedi'i Churadu ar gyfer Gweithgareddau
    Datblygu rhaglen gydol y flwyddyn o ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n cynnwys gwyliau, arddangosfeydd, cyfleoedd hamdden, ac ati, a hynny i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac sy'n estyn y tymor ysgwydd ac yn cefnogi'r economi leol.

16. Twristiaeth Fywiog
    Yn rhan o brofiad ymwelwyr â'r dref, hyrwyddo profiadau egnïol a rhyngweithiadau â natur a'r diwylliant lleol. Gwella a datblygu llwybrau beicio, llwybrau natur a throetffyrdd i hyrwyddo rhyngweithiadau â byd natur, gydag opsiynau ar gyfer gweithgareddau dan do ac awyr agored, cyfleusterau chwaraeon, ac amwynderau hamdden yng Ngheinewydd ac oddi amgylch.

17. Adloniant
    Hyrwyddo gwell canolfannau gweithgarwch ac amwynderau hamdden ar gyfer pob grŵp oedran ar hyd a lled y dref; mae hyn yn cynnwys ystod o brosiectau sy'n darparu gwell cefnogaeth i bobl ifanc ac yn cynnig dulliau dan arweiniad teuluoedd i alluogi plant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau ehangach i gael eu grymuso.

18. Mannau Gwyrdd
    Dylid parhau i gefnogi gerddi cymunedol, perllannau, a phrosiectau garddwriaethol. Mae yna amrywiaeth o gyfleoedd yn bodoli ar gyfer grwpiau tyfu a chymunedol lleol i gefnogi iechyd, llesiant a gweithgarwch cymdeithasol preswylwyr ledled y dref.



Themâu Cynllun Bro

Mae yna ystod o themâu cyffredin sy'n amrywio ar draws holl Drefi Ceredigion.

- Llesiant
- Creu Lleoedd
- Treftadaeth a Diwylliant
- Yr Economi
- Yr Amgylchedd

DRAFT

DRAFT

1. Pedestreiddio a Pharcio
2. Y Pier
3. Y Glannau
    - 3.1. Byrddio
    - 3.2. Hygyrchedd
    - 3.3. Lloches a Chyfleusterau Newid
4. Amgylcheddol
5. Mynediad Diwydiannol a Masnachol
6. Rheoli gwastraff
7. Iechyd ac Addysg
8. Dynodi Ilwybrau
9. Meddiannaeth ar y stryd fawr
10. Y Neuadd Goffa
11. Tai
12. Cymeriad a Hunaniaeth
13. Treftadaeth a Diwylliant
14. Cysylltedd
15. Rhaglen wedi'i Churadu ar gyfer Gweithgareddau
16. Twristiaeth fywiog
17. Adloniant
18. Mannau Gwyrdd

Themâu Cynllun Bro


- Llesiant
- Creu Lleoedd
- Treftadaeth a Diwylliant
- Yr Economi
- Yr Amgylchedd

Allwedd:

- Ffin yr anheddiad
- Cysylltiad
- Llwybrau i gerddwyr/ feicwyr
- Blaenoriaeth i Gerddwyr
- Parcio a Theithio/ Mynediad
- Y Glannau

Safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol

- Dyraniadau Tai
- Caniatadau Preswyl Nas Penderfynwyd Arnynt ar 31/08/2010 (3 uned neu ragor)



DRAFT

1. Pedestreiddio a Pharcio
2. Y Pier
3. Y Glannau
   - 3.1. Byrddio
   - 3.2. Hygyrchedd
   - 3.3. Lloches a Chyfleusterau Newid
4. Amgylcheddol
5. Mynediad Diwydiannol a Masnachol
6. Rheoli gwastraff
7. Iechyd ac Addysg
8. Dynodi llwybrau
9. Meddiannaeth ar y stryd fawr
10. Y Neuadd Goffa
11. Tai
12. Cymeriad a Hunaniaeth
13. Treftadaeth a Diwylliant
14. Cysylltedd
15. Rhaglen wedi'i Churadu ar gyfer Gweithgareddau
16. Twristiaeth fywiog
17. Adloniant
18. Mannau Gwyrdd

Themâu Cynllun Bro

- Llesiant
- Creu Lleoedd
- Treftadaeth a Diwylliant
- Yr Economi
- Yr Amgylchedd

Allwedd:

- Ffin yr anheddiad
- Cysylltiad
- Llwybrau i gerddwyr/ feicwyr
- Blaenoriaeth i Gerddwyr
- Parcio a Theithio/ Mynediad
- Y Glannau

Safleoedd a neilltuwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol

- Dyraniadau Tai
- Caniatadau Preswyl Nas Penderfynwyd Arnynt ar 31/08/2010 (3 uned neu ragor)



DRAFT




Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Llywodraeth Cymru Welsh Government